

Polisi Cwricwlwm Ysgol Gyfun Gwynllyw 2015 – 16

A. Nod ac Amcanion yr Ysgol

Seilir cwricwlwm yr ysgol ar yr egwyddorion canlynol:

1. Blaenoriaeth yr ysgol yw sicrhau bod y dysgwyr yn dysgu mewn awyrgylch diogel.

Ennyn balchder pob dysgwr yn ei iaith a'i wlad a theyrngarwch i'w gymuned a'i wreiddiau.

Rhoi'r cyfle i bob dysgwr ddatblygu hyd eithaf ei allu drwy gywrain gwybodaeth, dysgu medrau, magu agweddau, rhannu profiadau ac i ddyfnhau dealltwriaeth a fydd yn berthnasol i'w fywyd ar ôl gadael yr ysgol, er mwyn gosod sylfaen gadarn i'w fywyd fel oedolyn a hynny mewn byd tra-chyfnewidiol.

Disgwyl a mynnu safonau uchel iawn gan bob aelod o'r ysgol.

Rhoi cyfle i chwilfrydedd cynhenid y plentyn ddatblygu meddwl effro, ymholgar, a'r gallu i ddadlau yn rhesymegol, i gloriannu ac i benderfynu drosto'i hun.

Sicrhau fod pob dysgwr yn datblygu'r gelfyddyd o gyfathrebu'n ddwyieithog, yn llafar ac yn ysgrifenedig.

Meithrin awyrgylch deuluol yn yr ysgol a fydd yn croesawu pob aelod o'r gymuned.

Hybu parch at eraill, at werthoedd crefyddol, ysbrydol a moesol, a meithrin goddefgarwch tuag at hiliau, credoau ag agweddau gwahanol, boed gymdeithasol, ecomomaidd neu wleidyddol.

Magu hyder yn y dysgwyr a'i annog i gyfrannu i'r gymdeithas yn ôl ei allu a'i dalent drwy sicrhau digon o gyfle iddo wasanaethu, arwain a mynegi ei hun.

Cynorthwyo'r dysgwr i werthfawrogi cyrraeddiadau a chyrchnodau'r ddynolryw.

Rhoi cyfle i bob dysgwr gael dealltwriaeth o'r byd ac o ryng-ddibyniaeth unigolion, grwpiau a chenhedloedd, gwneir hyn trwy ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn cydymffurfio a'r holl ofynion statudol. Darperir amrywiaeth o brofiadau tu hwnt i'r ystafell dosbarth mewn perthynas â chwricwlwm pynciau a thu allan i'r cwricwlwm ffurfiol.

Agweddau Cyffredinol

Eang, cytbwys a pherthnasol yw'r cwricwlwm, a dylai'r drefniadaeth hwyluso symud dysgwr rhwng grwpiau dysgu, pan fo angen. Rydym yn sicrhau fod yna gydbwysedd rhwng arbenigedd a phrofiad Athrawon ar draws yr amrediad oed a gallu. Yn ystod y tair mlynedd gyntaf, yr un yw'r cwricwlwm, fwy neu lai, ar gyfer dysgwyr o bob gallu, ond â gwahaniaethu mewn methodoleg pynciol. Mae grwpiau sgiliau sylfaenol blwyddyn 7 yn dilyn cwrs Cymraeg a'r Dyniaethau (CAD) sydd yn rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau Llythrennedd sylfaenol y dysgwyr ynghyd â chyflwyno gwybodaeth bynciol y Dyniaethau. Mae cyrsiau arholiadau allanol ar gael i bob dysgwr ym mlynnyddoedd deg ac unarddeg. Ymhlith y cyrsiau mae'r T.G.A.U, a Thystysgrif Llwybrau Mynediad cynigir hefyd cyrsiau Galwedigaethol a Sgiliau Gwaith. Yn Cyfnod Allweddol 5, cynigir dewis eang o bynciau Safon 'UG' ac 'U2' yn ogystal â'r cymhwysterau Galwedigaethol BTEC a CACHE ar lefel 2 a 3. Rhoddir amser cwricwlwm i ddatblygu'r sgiliau hanfodol o fewn y BAC. Roedd Ysgol Gyfun Gwynllyw (oherwydd cyd weithio mewn phartneriaeth ag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni) wedi cwrdd â'r mesur sgiliau yn gynnar. Rydym yn cynnig 32 pwnc yn CA4 (30 ar lefel 2) a 7 o rhain yn alwedigaethol ac yn CA5 30 o bynciau Lefel 3, 6 ohonynt yn alwedigaethol. Cynigir hefyd cyrsiau ar Lefel 2 ar gyfer dysgwyr blwyddyn 12 sydd heb ennill cymhwysterau cyfwerth â 5 TGAU.

ADDYSG STATUDOL

Dyma'r addysg sy'n orfodol i bawb, rhwng oedran pump ac un ar bymtheg.

BLWYDDYN ACADEMAIDD

Dyma un cyfnod o addysg y dysgwyr. Y mae'r flwyddyn academaidd yn cychwyn ym mis Medi ac yn gorffen ym mis Awst.

e.e. Blwyddyn Academaidd 7
Dechrau ym Medi 2015 a gorffen yn Awst 2016.

BLYNYDDOEDD DYSGU

Diffinir blwyddyn addysg dysgwr yn ôl ei flwyddyn addysg statudol.

Y mae dysgwyr yn dechrau yn yr ysgol hon ar ôl chwe mlynedd o addysg statudol yn yr ysgolion meithrin a chynradd. Y mae dysgwr yn ei flwyddyn gyntaf yn yr ysgol hon ym mlwyddyn 7 o'i addysg statudol.

CYFNOD ALLWEDDOL

Ar ddiwedd cyfnod allweddol asesir lefel cyrhaeddiad dysgwyr. Ceir pedwar cyfnod allweddol statudol ond y mae dysgwyr sy'n cychwyn yn yr ysgol hon eisoes wedi bod trwy ddau gyfnod allweddol.

Blwyddyn	7	8	9	10	11	12	13	14
Cyfnod Allweddol	3	4	5*					
Asesiad	Lefelau	TGAU	Uwch					

Terfynol		Galwedig aethol Lefel 1 a 2 Llwybrau Mynediad	Gyfrannol LEFEL U2 BTEC Lefel 2 a 3 CACHE					
----------	--	--	---	--	--	--	--	--

* Nid yw Cyfnod allweddol 5 yn statudol

C. Y Cwricwlwm yng Ngyfnod Allweddol Tri

a. Y Pynciau a ddysgir

Mae'r cwricwlwm a ddarperir yn CA3 yn gyfredol i ofynion Cwricwlwm 2008. Caiff ei adolygu'n gyson. Dysgir holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol: Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Technoleg, Hanes, Daearyddiaeth, Celf, Cerddoriaeth, Ieithoedd Modern (Ffrangeg a Sbaeneg) yn ogystal ag Addysg Grefyddol, Addysg Gorfforol, Addysg Bersonol a Chymdeithasol. At hynny, dysgir Technoleg Gwybodaeth a Drama ym Mlynnyddoedd 7, 8 a 9. Mae grwpiau sgiliau sylfaenol blwyddyn 7 yn dilyn cwrs Cymraeg a'r Dyniaethau (CAD)

b. Hyd y Gwersi

Cyfanswm oriau dysgu yw 25 awr yr wythnos. Dysgir amserlen 5 diwrnod, a phob gwers yn para 30 munud, heblaw am y wers gyntaf sy'n 35 munud.

(c) Gwahaniaethu

Mae dysgu llwyddiannus yn dibynnu ar amryw o ffactorau ond mae gwahaniaethu'r addysgu i gwrdd ag anghenion amrywiol plant yn cynrychioli ffactor arbennig o bwysig. Beth sy'n cyfrif am yr amrywiaeth hyn? Gallu, cymhelliant, cefndir cymdeithasol, rhyw.

ch) Plant Galluog / Dawnus a Thalentog

Mae angen ymestyn dysgwyr MATH drwy gynnig gwaith sy'n eu herio, serch hynny, mae angen ymestyn pob dysgwr ac arddel disgwyliadau uchel o bob dysgwr.

(d) Grwpio Dysgwyr

Defnyddir amryw o ddulliau i grwpio dysgwyr.

LLYSOEDD

Wrth i ddysgwr ymuno â'r ysgol fe'i gosodir mewn llys, ac y mae yn aros yn y llys trwy gydol ei yrfa yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4 yn yr ysgol.

Ebwy
Llwyd
Rhymni
Wysg

GRWPIAU COFRESTRU

Wrth i ddysgwyr ymuno â'r ysgol, a llys, fe roddir Grŵp cofrestru o fewn y llys. Mae tri dosbarth cofrestru cyfunol ym mlynnyddoedd 13 a phedwar ym mlwyddyn 12.

Blwyddyn	7	8	9	10	11	12	13
Grwpiau Cofrestru	Ebwy 1 a 2 Llwyd 1 a 2 Rhymini 1 a 2 Wysg 1 a 2	Ebwy 1 a 2 Llwyd 1 a 2 Rhymini 1 a 2 Wysg 1 a 2	Ebwy 1 Llwyd 1 a 2 Rhymini 1 a 2 Wysg 1 a 2	Ebwy 1 a 2 Llwyd 1 a 2 Rhymini 1 a 2 Wysg 2	Ebwy 1 a 2 Llwyd 1 a 2 Rhymini 1 a 2 Wysg 1 a 2	Barlwm Gwyddon Sirhywi Tyleri	Barlwm Gwyddon Tyleri

Setio

Credir bod setio yn ddull effeithiol o anelu at gyrhaeddiad uchel. Gosodir y dysgwyr mewn setiau ym Mathemateg ym Mlwyddyn 7, ac ym Mathemateg, Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth ym Mlwyddyn 8 a 9. Mae'r adrannau Dyniaethau a leithoedd Modern yn cyd setio. Ceir un dosbarth Anghenion Dysgu ychwanegol a dosbarthiadau Pontio, fel arfer "cryf" a "gwan". Eleni ym mlwyddyn 7 ceir dosbarth pontio cryf, un gwanach, dosbarth ADY a dosbarth o ddysgwyr a adnabwyd fel MATH / "Dawnus a thalentog"

Anghenion Dysgu ychwanegol

Er mwyn sicrhau bod dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn derbyn cwricwlwm llawn, un sy'n eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol, dysgir dysgwyr â datganiad arnynt yn y grŵp mwyaf addas iddynt yn y flwyddyn. Fe'u haddysgir gan arbenigwr pwnc ym mhob gwers, mewn setiau lle bo setiau'n digwydd a'u hintegreiddio yn llwyr ar gyfer Technoleg, Technoleg Gwybodaeth, Celf, Cerddoriaeth ac Addysg Gorfforol. Mae'r Dosbarth Anghenion Dysgu Ychwanegol a phontio yn derbyn gwersi "Ffrangeg" ym ml 7, 2 wers; Sbaeneg ym ml 8 (gyda gwर्स ychwanegol yr un o Gymraeg a Saesneg) ac yn astudio Sbaeneg ym ml. 9 (gyda gwर्स ychwanegol yr un o Gymraeg a Saesneg).

Bandio drych (mirror banding)

Rhennir y dysgwyr ym Mlynnyddoedd 7,8 a 9 i ddau fand a threfnir grwpiau gallu cymysg neu setiau o fewn y ddau fand, lle mae'r adrannau'n dymuno setio. Bydd dwy ran o dair o'r gwersi mewn grwpiau yn ôl bandio / set. Am y traean arall o'r wythnos sef am y gwersi ymarferol (Cerddoriaeth, Celf, DT, TG) bydd y dysgwyr mewn grwpiau cymysg eu gallu. Mae ymgynghori manwl wedi bod â'r ysgolion cynradd cyn trefnu'r plant.

Blwyddyn 7

Y mae'r dysgwyr yn astudio pwnc fel dosbarth dysgu.

BLWYDDYN	Islwyn	Machen
7	Ystrwyth Gwyddon & Pencarn & a Sirhywi *	Tyleri Brynar Carn Caio

- grwp Anghenion Dysgu Ychwanegol & grwp pontio

Ar gyfer pynciau arbennig fe fyddwn yn cyfuno dosbarthiadau dysgu er mwyn ffurfio grwpiau dysgu mwy addas.

e.e. Addysg Gorfforol a Thechnoleg, Cerddoriaeth, Celf, Technoleg Gwybodaeth,

Addysg Gorfforol (CA3)	e.e Cyfuno Islwyn i ffurfio tri neu bedwar grŵp dysgu
Technoleg (CA3)	e.e. Cyfuno Islwyn i ffurfio tri neu bedwar grŵp dysgu llai

Blwyddyn 8 a 9

Y mae'r dysgwyr yn astudio pwnc fel dosbarth dysgu yn dilyn yr un drefn â dosbarthiadau blwyddyn 7.

Bandio yn y Pynciau Craidd

Y mae pob dysgwr wedi ei osod mewn set ym mhob pwnc craidd o fewn y band priodol ac yn derbyn gwersi yn ystod cyfnod penodol.

Blwyddyn 8

Cymraeg / Saesneg / Gwyddoniaeth / Mathemateg	
Islwyn	Set 1 - 4 (Ar wahan)
Machen	Set 1 - 4 (Ar wahan)

Blwyddyn 9

Cymraeg / Saesneg / Gwyddoniaeth / Mathemateg	
Islwyn	Set 1 - 3 (Ar wahan)
Machen	Set 1 - 4 (Ar wahan)

Y mae leithoedd Modern, Astudiaethau Crefyddol, Hanes a Daearyddiaeth yn gosod dysgwyr mewn setiau Dynieithau penodol ac yn derbyn gwersi yn ystod cyfnod penodol. Nid yw'r setiau yma yn dylanwadu ar ddsbarthiad dysgwyr mewn unrhyw bwnc arall. Dymuniad yr ysgol yw i bob dysgwr astudio Ffrangeg ym mlwyddyn 7, rhan fwyaf i astudio Ffrangeg a Sbaeneg ym mlwyddyn 8 a 9, ac i setiau pontio ac ADY astudio Sbaeneg ym mlwyddyn 8 a 9.

Gwersi Ymarferol Cyfnod Allweddol Tri

Y mae'r dysgwyr yn derbyn nifer o wersi mewn pynciau ymarferol ym mhob blwyddyn yn ystod CA3.

Blwyddyn	Pynciau Ychwanegol	
	Dylunio a Thechnoleg	
7	Dylunio a Thechnoleg (2)	Celf (2) Cerdd (2) Technoleg Gwybodaeth (2)
8	Dylunio a Thechnoleg (2)	Celf (2)

		Cerdd (2) Technoleg Gwybodaeth (2)
9	Dylunio a Thechnoleg (2)	Celf (2) Cerdd (2) Technoleg Gwybodaeth (2)

Ch. Y Cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol Pedwar

Y Cwricwlwm Cyfnod allweddol 4

Mae'r cwricwlwm yn CA4 wedi ei seilio ar gyfuniad o gyrsiau allanol craidd gorfodol, cyrsiau pynciau sylfaen dewisol a chysiau statudol di-arholiad. Roedd yr ysgol wedi ymrwmo i egwyddorion Llwybrau Dysgu 14-19 a thrwy bartneriaeth arloesol gydag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi sefydlu amrediad o gyrsiau galwedigaethol addas i'r dysgwyr. Mae hyn wedi arwain at niferoedd cynyddol yn dod nôl i'r chweched dosbarth ac arwain at gynnydd yn ein canlyniadau 5 A*-C, y targed nesaf yw cynyddu'r sgôr pwyntiau wedi'u capio.

(ii) Cyrsiau

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

Dysgir cyrsiau TGAU yn y pynciau canlynol: Gwyddoniaeth (Bioleg, Cemeg a Ffiseg), Mathemateg, Cymraeg, Saesneg, Hanes, Daeyddiaeth, Astudiaethau Crefydd; Ffrangeg a Sbaeneg, CDT Graffeg, CDT Dylunio, a CDT Bwyd / Arlwyo, Technoleg Gwybodaeth, Celf, Drama, Cerddoriaeth, Seicoleg ac Addysg Gorfforol*.

** Defnyddir Th ar gyfer Addysg Gorfforol (TGAU) ar y cynllun cwricwlwm*

Y Dystysgrif Llwybrau Mynediad

Dysgir cyrsiau TLM yn y pynciau canlynol: Mathemateg, Cymraeg, Saesneg, Hanes, Arlwyo. Nod yr ysgol yw cynyddu'r darpariaeth yma. Caiff dysgwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol eu hintegreiddio o fewn dosbarthiadau gallu cymysg mewn nifer o bynciau.

Cyrsiau Galwedigaethol Tystysgrif Cyntaf Lefel 1 a 2

Dysgir Cyrsiau Galwedigaethol Tystysgrif Cyntaf Lefel 2 gwerth un neu ddau TGAU yn y pynciau canlynol: Gwyddoniaeth, Adeiladu, Busnes, Iechyd a Gofal, Sgiliau Gwaith a Teithio a Thwrstaeth.

(iii) Grwpiau Dysgu

Gosodir y dysgwyr mewn setiau lle mae hynny'n ymarferol bosibl o ran staffio a'r amserlen. Dysgir Gwyddoniaeth, Mathemateg, Cymraeg, Saesneg mewn setiau gallu. Os dysgir mewn

mwy nac un dosbarth, anogir Penaethiaid Adrannau'r pynciau sylfaen i setio eu dysgwyr yn ogystal. Os mai dim ond un dosbarth a geir, dysgir y dosbarth hwnnw fel dosbarth cymysg ei allu.

Dysgir y tri Gwyddoniaeth ar wahân ar gyfer dysgwyr sydd yn y band uchaf ym mlwyddyn 11. Dysgir Gwyddoniaeth Dwbl i weddill y dysgwyr. Ym Mlwyddyn 10 mae gwyddoniaeth ar wahan yn opsiwn i'r disgyblion mwy galluog.

Blwyddyn 10

	Ma/Gw A	Ma/Gw B
Mathemateg	Set 1 -3	Set 4 -6
Gwyddoniaeth	Set 4 -6	Set 1 -3

	C/Sa A	C/Sa B
Cymraeg	Set 1 -3	Set 4 -6
Saesneg	Set 4 -6	Set 1 -3

Blwyddyn 11

Fel uchod

Y mae cwricwlwm y dysgwyr wedi'i rannu i bynciau statudol, craidd a dewisol. Nodir isod strwythur y cwricwlwm.

	PYNCAU	DOSBARTHADAU DYSGU	
CRAIDD (32)	Cymraeg (8) Gwyddoniaeth (8) TGAU a Chymhwysol Lefel 2 (8)	Saesneg (8) Mathemateg (8)	Setio yn ôl gallu yn y pwnc
STATUDOL (2)	ABCh Diwrnodau di amserlen Addysg Grefyddol Gyrfaeodd Addysg Rhyw Dinasyddiaeth	Addysg Gorfforol (2)	Hanner blwyddyn dysgu pwnc craidd e.e. Blwyddyn 11: Saesneg
DEWISOL (16)	Dyniaethol		
4 x (4)	Astudiaethau Crefyddol Seicoleg Teithio a Thwrstaeth Lefel2	Hanes Daearyddiaeth	Yn ôl trefn y dewisiadau.
	leithoedd		
	Ffrangeg	Sbaeneg	
	Technolegol /Creadigol		Os oes llawer o ddysgwyr wedi dewis y pwnc efallai bydd yn bosibl i setio yn ôl gallu yn y pwnc.
	Addysg Gorfforol TGAU	Drama Cerddoriaeth	

	Tech Gwybodaeth TGAU		
	Dylunio a Thechnoleg Cynnyrch Graffeg Celf a Dylunio	Arlwyo Gofal a Iechyd Lefel 2	
	Busnes Lefel 2 Adeiladu Lefel 2	Sgiliau Gwaith BTEC Lefel 2 ac 1	

(iv) Dewisiadau

Er mwyn sicrhau cwricwlwm cytbwys, cynghorir bod y dysgwyr yn dewis yn ddoeth.

Yn y modd hwn, ceisir sicrhau cwricwlwm llydan, cytbwys a pherthnasol. O ran cynghori'r dysgwyr, cedwir at y drefn ganlynol:

- Cyfarfod gyda rhieni yn y Gwanwyn, dosbarthu llyfrynnau, trafodaethau a chyfarfod athrawon, cwrdd â dysgwyr.
- Tua mis wedyn cesglir y wybodaeth a ffurfir y fersiwn cyntaf o'r grwpiau, ymgynghorir ag athrawon, nôl at ddysgwyr lle mae dewis anaddas wedi'i wneud, cysylltu â'u rhieni.
- Ail ddrafft gyda symudiadau er mwyn cadw cydbwysedd yn y grwpiau.
- Yn ystod yr haf ysgrifennir at bob rhiant gan nodi dewisiadau ac unrhyw gyngor addas.
- Am gyfnod o bythefnos ar ddechrau blwyddyn 10 mae Pennaeth Blwyddyn 10 yn monitro'r sefyllfa ac yn trefnu'r newidiadau anghenrheidiol. Nid ydym yn gwrthod newidiadau wedyn ond dibynnir ar faint dosbarthiadau, gallu dysgwyr a faint o waith a gollwyd.

ch. Cyfnod Allweddol 5

Mae'r mwyafrif o bobl ifanc bellach yn penderfynu parhau â'u haddysg ar ôl un ar bymtheg mlwydd oed. Fe welant ei bod hi'n dod yn fwy fwy manteisiol i ennill cymwysterau pellach-Lefelau U2 / UG / CACH|E / BTEC- a all yn eu tro arwain at raddau Brifysgol. Erbyn hyn, fe welwn fod tua 60% o ddysgwyr Blwyddyn 11 yn penderfynu dod yn ôl i'r Chweched Dosbarth yn yr ysgol hon. Mae hyn wedi cynyddu'n raddol o 56% yn 2006 i tua 70% yn 2012.

Mae gan yr ysgol enw da iawn am ragoriaeth ei chanlyniadau arholiadau;

Yn 2015, llwyddodd 99% o'r dysgwyr a safodd eu cyrsiau Lefel U2 yn yr ysgol i ennill graddau A i E; ac ar ben hynny, llwyddodd dros 83% ohonynt ennill graddau A i C. Llwyddodd y mwyafrif llethol ohonynt i ennill lle mewn Brifysgolion neu mewn sefydliadau Addysg Uwch.

Yn 2014, llwyddodd 99% o'r dysgwyr a safodd eu cyrsiau Lefel U2 yn yr ysgol i ennill graddau A i E; ac ar ben hynny, llwyddodd dros 79% ohonynt ennill graddau A i C.

Llwyddodd y mwyafrif llethol ohonynt i ennill lle mewn prifysgolion neu mewn sefydliadau Addysg Uwch.

Mae angen llawer o gefnogaeth a chynghor personol ar bob myfyriwr i lwyddo yn yr ysgol. Yn y Chweched Dosbarth, fel yng ngweddill yr ysgol, rydym yn pwysleisio yr angen i ymddiddori, i gefnogi ac i gynghori'r myfyrwyr. Mae hyn yn fanteisiol iawn os yw'r myfyriwr i lwyddo yn y pen draw. Byddwn yn rhoi gwybodaeth gyson i'r myfyrwyr a'u rhieni ynglŷn â'u cynnydd yn eu cyrsiau.

Pwysleisiwn fel ysgol bwysigrwydd datblygiad llawn yr unigolyn. Mae hynny'n cwmpasu, nid yn unig llwyddiant academaidd, ond hefyd llwyddiant cymdeithasol. O gofio am brysurdeb a gorchestion yr ysgol yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac am ei llwyddiannau ar y meysydd chwarae, does dim rhyfedd fod gan yr ysgol gryn dipyn i'w gynnig i ddarpar fyfyrwyr y Chweched Dosbarth.

Pa Gyrsiau i'w Cymryd?

Rhoddir cyngor manwl i ddisgyblion sydd yn mynegu diddordeb mewn dychwelyd i astudio yn Ysgol Gyfun Gwynllyw. Yn ystod Tymor y Pasg ym Mlwyddyn 11, dosberthir llawlyfr y Chweched Dosbarth i ddysgwyr Blwyddyn 11. Cynhelir arolwg i ganfod pa ddysgwyr sy'n bwriadu dychwelyd i'r Chweched Dosbarth a pha gyrsiau y bwriadant eu hastudio a pha ddysgwyr sy'n bwriadu gadael yr ysgol ar ôl 16 mlwydd oed. Cynhelir cyfarfod rhieni arbennig i esbonio cyrsiau'r Chweched Dosbarth i rieni Blwyddyn 11. Mae penaethiaid adrannau yn mynychu'r cyfarfod ac yn cynghori ar addasrwydd dysgwyr i astudio'r cyrsiau. Mae'r tim bugeilio a'r Dirprwy Cwricwlwm yn gwneud gwaith pellach ac fe ystyrir wybodaeth o ffynhonnellau megis grŵp Prifysgolion Russell a'i drosglwyddo mewn modd sensitif ond cadarn. Ffurfir colofnau opsiynnau yn dilyn ymgynghori ac fe ddanfonir y wybodaeth drwy'r post i bob dysgwr ym mlwyddyn 11. Ceir cyfnod o ymgynghori bellach.

Gall yr ysgol gynnig ystod eang o gyrsiau- cyrsiau Lefel U2/UG/BTEC. Mae amryw o lwybrau'n agored. Gellir astudio cyrsiau Lefel UG neu BTEC yn unig, cyrsiau CACHE yn unig neu gellir cyfuno cyrsiau UG a BTEC. Mae pob dysgwr sydd yn dychwelyd i astudio yn yr ysgol yn derbyn cyfweiliad adolygu dewisiadau. Fel arfer ceisir sicrhau trwy newidiadau i'r amserlen cyfleoedd astudio amrediad eang o bynciau.

Lefel UG

Dysgir cyrsiau Lefel UG yn y pynciau canlynol: Cemeg, Ffiseg, Bioleg, Mathemateg, Mathemateg Bellach, Cymraeg, Saesneg, Hanes, Daearyddiaeth, Astudiaethau Crefydd; Ffrangeg, Sbaeneg, Dylunio Technoleg, Technoleg Gwybodaeth; Celf, Celf Ffotograffiaeth, Drama, Cerddoriaeth, Seicoleg, Cymdeithaseg, Y Gyfraith, Economeg, Gwleidyddiaeth ac Addysg Gorfforol.

BTEC Lefel 2

Teithio a Thwrستاeth, Iechyd a Gofal, Busnes (Mae wyth gwrs wedi amserlenu gydag athro a disgwylir pedair gwrs ychwanegol wedi amserlenu ar gyfer astudio annibynol mewn

ystafell arbennigol.) a'r CACHE Cynorthwy-ydd Dosbarth.

BTEC Lefel 3

Teithio a Thwrstaeth, Iechyd a Gofal, Busnes, Lletygarwch, Gwyddoniaeth a'r CACHE Cynorthwy-ydd Dosbarth.

Lefel U2

Dysgir cyrsiau U2 sydd fel parhàd o gyrsiau UG.

Y Bac Cymreig

Mae pob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 5 yn astudio'r BAC Cymreig.

Diweddarwyd gan RhWD 8/10/15

Dyddiad Cymeradwyo'r Polisi gan y Corff Llywodraethol:	Ionawr 2016
Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:	
Llofnod y Pennaeth:	
Cyfnod cyn Adolygu:	Blwyddyn
Dyddiad Adolygu:	Ionawr 2017